S4C /

# Cydlynydd Gwe

Mae bod yn rhugl yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

**Pam ymuno ag S4C?**

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu Pawb, Cer Amdani.

Byddwch yn rhan o dîm sy'n llunio dyfodol cyfryngau Cymraeg ac yn cyflwyno profiadau digidol sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd ledled Cymru a thu hwnt. Fel Cydlynydd Gwe, byddwch yn cael y cyfle i gael effaith wirioneddol - o adeiladu cynnwys ar-lein deniadol i helpu i lunio sut mae ein cynulleidfaoedd yn rhyngweithio â llwyfannau S4C. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â dylunwyr a datblygwyr creadigol, gan ennill profiad ymarferol. Byddwn yn cefnogi eich twf gyda chyfleoedd hyfforddi a datblygu, tra'n rhoi'r hyblygrwydd i chi ffynnu mewn gweithle cydweithredol, modern. Os ydych chi'n angerddol am y cyfryngau digidol, yn cael eich cyffroi gan brofiad defnyddwyr, ac yn falch o ddiwylliant Cymru, dyma eich cyfle i ymuno â sefydliad unigryw lle mae eich gwaith o bwys.

**Trosolwg o'r Swydd**

Mae hwn yn gyfle cyffrous i rywun sy'n angerddol am gyfryngau digidol, cynnwys, sydd am gyfrannu at hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru mewn amgylchedd cyfryngau sy'n symud yn gyflym.

Fel Cydlynydd Gwe, byddwch yn gyfrifol am gynnal a datblygu cynnwys ar draws gwefan S4C a chynhyrchion digidol cysylltiedig. Byddwch yn creu, golygu a diweddaru tudalennau, yn cefnogi cwmnïau cynhyrchu gyda'u cynnwys gwe ac ap, ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt allweddol i gydweithwyr a phartneriaid. Gan weithio'n agos gyda'n Dylunydd UI a'n Blaen-ddatblygwr, byddwch yn helpu i adeiladu cydrannau newydd ar gyfer ein system ddylunio a sicrhau cysondeb ar draws ein llwyfannau.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

- Yn gyfrifol am greu, golygu, archifo a dileu tudalennau, is-safleoedd ac adrannau o wefan S4C.
- Cefnogi'r sector cynhyrchu gyda'u gwefannau, tudalennau gwe ac apiau ar gyfer S4C pan fo angen.
- Cydweithio gyda thimau ar draws S4C ar ymgyrchoedd digidol a Chynhyrchion digidol S4C.
- Pwynt cyswllt ar gyfer y wefan ar gyfer staff ar draws S4C, y sector cynhyrchu a 3ydd partïon.
- Creu tudalennau, is-safleoedd ac adrannau newydd o wefan S4C.
- Gweithio'n agos gyda'r Dylunydd UI a'r Blaen-ddatblygwr i greu cydrannau newydd ar gyfer system ddylunio S4C.
- Cefnogi'r tîm Datblygu Cynnyrch wrth gasglu adborth defnyddwyr trwy arolygon, polau, neu sesiynau profi defnyddioldeb.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

- Monitro metrigau defnyddioldeb sylfaenol (e.e. cyfradd bownsio, amser ar dudalen, llwybrau llywio) gan ddefnyddio offer dadansoddeg a thynnu sylw at faterion posibl er mwyn ymchwilio ymhellach.
- Creu a chyfieithu copi ar gyfer y Tîm Datblygu Cynnyrch i'w ddefnyddio drwy Gynhyrchion digidol S4C.
- Helpu i sicrhau cysondeb profiad defnyddwyr ar draws llwyfannau digidol S4C drwy gymhwyso cydrannau system dylunio a safonau hygyrchedd y cytunwyd arnynt.
- Helpu gydag ymchwil defnyddwyr a phrofiad y defnyddiwr.
- Cysylltu â thimau ar draws S4C i sicrhau bod cynnwys yn gyfredol.
- Siarad â rhanddeiliaid ar draws y sefydliad i helpu i lunio llwyfannau digidol e.e. gweithdai ar gyfer nodweddion newydd.
- Helpu gyda hyfforddi staff a 3ydd partïon ar gyfer defnyddio Cynhyrchion digidol S4C.
- Hyrwyddo hygyrchedd a chynwysoldeb trwy wirio cynnwys a thudalennau newydd yn erbyn canllawiau ac arferion gorau hygyrchedd.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i gydymffurfio â'n polisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn, gan gynnwys gweithio o fewn canllawiau ar iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, gweithdrefnau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Gweithio gyda'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol sy'n datblygu gwasanaethau rhagorol i'n gwylwyr ar draws bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr lle mae pawb yn cael eu trin gyda pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Amgylchedd gweithio hyblyg o un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gymwysterau, hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus.

- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau, rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan staff y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda chyfraniad o 10% gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau blynyddol, gan gynyddu'n raddol i 32 diwrnod ar ôl 9 mlynedd.

### Manyleb y person

| Priodoledd | Hanfodol | Ddymunol |
|---|---|---|
| **Profiad** | Profiad o ddefnyddio Systemau Rheoli Cynnwys (CMS).<br>Profiad o ysgrifennu copi ar gyfer gwefannau a/neu gynhyrchion digidol.<br>Profiad o farchnata digidol a chreu gwefannau.<br>Dealltwriaeth o ddadansoddeg gwe trwy ddefnyddio offer fel Google Analytics.<br>Effeithlon mewn offer Adobe Creative Cloud fel Photoshop ac Illustrator.<br>Lefel uchel o sgiliau ar gynhyrchion Microsoft 365 a Google. | Cyfarwydd â dulliau ymchwil defnyddwyr (e.e. arolygon, cyfweliadau, profion defnyddioldeb).<br>Dealltwriaeth sylfaenol o ofynion cyfreithiol a chydymffurfio.<br>Profiad o siopau apiau ac offer datblygwr.<br>Ymwybyddiaeth o'r dirwedd AI a'r datblygiadau yn y maes. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Sgiliau cyfathrebu rhagorol.<br>Sgiliau Cymraeg cryf, ysgrifenedig ac ar lafar yn Gymraeg a Saesneg, a'r gallu i ymateb i amrywiaeth o ymholiadau defnyddwyr. (Mae cymorth ar gael ar gyfer datblygu sgiliau ysgrifennu ac iaith).<br>Hyblygrwydd a'r gallu i reoli sawl prosiect ar yr un pryd.<br>Diddordeb mawr mewn cyfryngau digidol, datblygu cynnyrch ac AI.<br>Llygad am ddylunio.<br>Diddordeb cryf yn y gofod technoleg a'r cyfryngau.<br>Sgiliau rhyngbersonol cryf.<br>Sgiliau cynllunio. | Ymwybyddiaeth o safonau hygyrchedd gwe (WCAG) a'r gallu i'w cymhwyso mewn cynnwys a dylunio. |

S4C /

| | | |
|---|---|---|
| | Sylw rhagorol i fanylion a chywirdeb.<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol, gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith amrywiol â therfynau amser sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. | |
| **Nodweddion Personol** | Dealltwriaeth ac ymrwymiad i Strategaeth a pholisi Amrywiaeth a Chynhwysiant S4C.<br>Diddordeb mawr yn S4C/yn niwylliant Cymru.<br><br>Awyddus i ddysgu.<br><br>Datryswr problemau.<br><br>Lefel uchel o uniondeb personol, yn cael ei ddangos trwy ymddygiad.<br><br>Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | |

**Manylion Pellach**

**Lleoliad:** Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa)

**Cyflog:** £28,200 y flwyddyn

**Cytundeb:** Parhaol

**Cyfnod Prawf:** 6 mis

**Oriau Gwaith:** 35.75 awr yr wythnos

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn. (Sylwer y bydd y gwyliau blynyddol ar sail pro rata os yn gweithio rhan amser).

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Bydd disgwyl i chi gyfrannu 5%.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

S4C /

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn **9.00 ar ddydd Iau 2 Hydref** i Pobl@s4c.cymru neu Adran Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Ni fydd CV yn cael eu derbyn.

Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnydd AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw am resymau hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir cymdeithasol-economaidd, oedran, statws teulu, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan amser neu amser llawn, crefydd, gwleidyddiaeth, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroi i ystyried amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl allai fod wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys merched, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Mae egwyddorion cystadleuaeth agored a theg ar waith a bydd penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR